O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2015 Rhif 1708 (Cy. 224)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn (Dirymu) Gorchymyn Cefnffordd (yr A40) (Ffordd Trefynwy, y Fenni, Gwent) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 1991 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Awst 2015* |
| *Yn dod i rym* | *28 Awst 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Rhaglan i Lanymddyfri (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1), 84(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Awst 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn (Dirymu) Gorchymyn Cefnffordd (yr A40) (Ffordd Trefynwy, y Fenni, Gwent) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 1991 2015.

### Dirymu

**2.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A40) (Ffordd Trefynwy, y Fenni, Gwent) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 1991(**2**)**(2)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

---

(**1**) 1984 p. 27; disodlwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1991/1591.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru
Dyddiedig 27 Awst 2015

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru